Y Pwyllgor Deisebau
—
Petitions Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Tachwedd 2022

Annwyl Paul

**Deiseb P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 17 Hydref, ynghyd â gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Cats Matter a'r deisebydd.

Yn y cyfarfod, cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn dod â'r ddeiseb i'ch sylw ac i ofyn pa gynlluniau sydd gan eich Pwyllgor mewn lle i edrych ar y materion a godwyd yn y ddeiseb fel rhan o'ch rhaglen waith, yn enwedig o ran safonau gofal anifeiliaid.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=39835&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clercio: deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Jack Sargeant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.